OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2004 Rhif 803 (Cy.83)

LLYFRGELLOEDD, CYMRU

Gorchymyn Diddymu Cyngor Ymgynghorol Llyfrgelloedd Cymru a Diwygiadau Canlyniadol 2004

Wedi'i wneud	- -	*17 Mawrth 2004*
Yn dod i rym	- -	*1 Ebrill 2004*

Mae adran 28(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**1**) ("Deddf 1998"), a Rhan I o Atodlen 4 iddi, yn galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i drosglwyddo iddo ef ei hun swyddogaethau statudol y Cyngor a sefydlwyd i Gymru o dan adran 2 o Ddeddf Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd Cyhoeddus 1964(**2**).

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol o'r farn bod swyddogaethau statudol y Cyngor, sef swyddogaethau cynghori'r Cynulliad Cenedlaethol ar y materion hynny sy'n gysylltiedig â darparu neu ddefnyddio cyfleusterau llyfrgelloedd boed o dan Ddeddf 1964 neu fel arall ac ar unrhyw gwestiynau y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn eu cyfeirio at y Cyngor, yn swyddogaethau sy'n gofyn am i gyngor gael ei roi i'r Cynulliad Cenedlaethol ei hun, ac felly yn dod o fewn adran 28(2)(a) o Ddeddf 1998.

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol, trwy arfer ei bwerau o dan adran 28 o Ddeddf 1998, a Rhan 1 o Atodlen 4 iddi, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enw, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Diddymu Cyngor Ymgynghorol Llyfrgelloedd Cymru a Diwygiadau Canlyniadol 2004.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2004.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys mewn perthynas â Chymru.

(4) Yn y Gorchymyn hwn —

ystyr "Deddf 1964" ("*the 1964 Act*") yw Ddeddf Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd Cyhoeddus 1964:

ystyr "y Cyngor" ("*the Council*") yw'r Cyngor Ymgynghorol Llyfrgelloedd a sefydlwyd ar gyfer Cymru a Sir Fynwy o dan adran 2 o Ddeddf 1964, a adnabyddir fel Cyngor Gwasanaethau Llyfrgelloedd a Gwybodaeth (Cymru); ac

(**1**) 1998 p. 38.
(**2**) 1964 p. 75. Mae swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan y Ddeddf wedi'u trosglwyddo i'r Cynulliad Cenedlaethol gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).